


# Y Grŵp Cyngor Technegol

## Datganiad Consensws ar ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn lleoliadau gofal plant ac addysg i blant a phobl ifanc o dan 18 oed

27 Mai 2021







© Hawlfraint y Goron 2021

## Y Grŵp Cyngor Technegol ar Blant – Datganiad Consensws

**27 Mai 2021**

**Defnyddio gorchuddion wyneb mewn lleoliadau gofal plant ac addysg i blant a phobl ifanc o dan 18 oed**

### Datganiad Consensws

Mae'r datganiad hwn yn gwneud y canlynol

- crynhoi'r dystiolaeth bresennol mewn perthynas â defnyddio gorchuddion wyneb mewn lleoliadau gofal plant, ysgolion a cholegau;
- nodi meysydd o ansicrwydd lle mae bylchau yn y dystiolaeth;
- cynnig dull asesu risg cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau a'r manteision cyffredinol i blant, pobl ifanc a staff.

### Argymhellion

- O ystyried y posibilrwydd o niwed i blant, pobl ifanc a staff yn sgil defnyddio gorchuddion wyneb yn barhaus drwy'r dydd, dylid eu defnyddio mewn ffordd sy'n ymateb i newidiadau yn y pandemig a'r dystiolaeth a ddaw i'r amlwg. Dylai'r ffordd y cânt eu defnyddio adlewyrchu cyffredinrwydd isel ac uchel yn y gymuned a newidiadau i'r amodau mewn perthynas â'r feirws.
- Dylai penderfyniadau ynglŷn â defnyddio gorchuddion wyneb ystyried ystod lawn yr hierarchaeth o ymyriadau rheoli sydd ar waith mewn ysgol i atal y feirws rhag lledaenu. Lle y ceir cyffredinrwydd isel yn y gymuned, mae'n bosibl iawn y bydd y niweidiau sy'n gysylltiedig â defnyddio gorchuddion wyneb yn drech na'r manteision cyffredinol. Gall y niweidiau hyn gynnwys ymdeimlad ffug o sicrwydd sy'n effeithio ar gydymffurfiaeth â mesurau eraill i reoli'r haint, llai o gyfathrebu rhwng yr athrawon a'r myfyrwyr sy'n ymyrryd ag addysgeg ac yn arwain at ddirywiad mewn deilliannau dysgu, ac anesmwythder anadlol neu epidermaidd. Felly, dylem ystyried mynd ati i gydgynhyrchu dull o ddefnyddio ymyriadau anfferyllol fel gorchuddion wyneb sy'n seiliedig ar risg ac sydd wedi'i deilwra i ardaloedd penodol; gyda'r bwriad o daro cydbwysedd rhwng y niweidiau sy'n gysylltiedig â'u defnyddio am gyfnodau estynedig mewn ystafelloedd dosbarth a manteision canfyddedig amddiffyn pobl rhag trosglwyddiad y feirws.
- Cyn diwedd y flwyddyn academaidd bresennol, sef 2020-2021, er mwyn paratoi ar gyfer mis Medi 2021, dylid cynnal asesiad o'r risgiau gwirioneddol ar lefel leol sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau i ddefnyddio gorchuddion wyneb o blaid dulliau eraill o reoli risgiau. Dylai'r asesiad hwn gael ei gydgynhyrchu, a dylai ystyried cyfraddau trosglwyddo lleol yn ogystal â safbwyntiau dysgwyr/plant, staff a rhanddeiliaid eraill.
- Mae amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys rhaglen lwyddiannus i frechu poblogaeth Cymru, rhaglen ar gyfer profi dysgwyr a staff nad oes ganddynt symptomau, a mwy o weithgarwch olrhain cysylltiadau, wedi cyfuno i wneud cymunedau'n fwy

cydnerth, at ddiben gwarchod pobl rhag y don bresennol o ledaeniad y feirws, a thonnau yn y dyfodol. O ystyried newidiadau i'r cyd-destun risg o ran trosglwyddadwyedd y feirws a thueddiad pobl i'w ddal, mae'n bwysig gwerthuso effaith gyffredinol ymyriadau mewn lleoliadau gofal plant, ysgolion a lleoliadau addysg bellach, a myfyrio arni.

- Mae'n debygol y bydd amrywiolynnau newydd o'r feirws yn y dyfodol ac mae'n bosibl na fydd dibynnu ar yr holl fesurau sydd ar waith ar hyn o bryd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Dylid ystyried mesurau amgen, eu datblygu a'u rhoi ar waith er mwyn galluogi lleoliadau gofal plant, ysgolion a lleoliadau addysg bellach i weithredu'n effeithiol er gwaethaf amodau allanol.
- Dylid comisiynu dadansoddiad data ac ymchwil/modelu pellach, o garfanau oedran ysgol penodol i fynd i'r afael â chwestiynau allweddol heb eu hateb sy'n ymwneud â'r cydbwysedd rhwng rheoli heintiau ac addysg effeithiol i fyfyrwyr ysgol ac addysg bellach o dan 18 oed. Dylai hyn gynnwys amcangyfrif wedi'i ddiweddaru o effaith pob grŵp oedran hyd at 18 oed ar R pan fo ysgolion a cholegau ar agor.
- Dylid cynnal asesiad ychwanegol o'r niweidiau cymharol sy'n gysylltiedig â defnydd hirdymor o orchuddion wyneb mewn lleoliadau addysg.

### Tystiolaeth mewn perthynas â defnyddio gorchuddion wyneb

### Gorchuddion wyneb fel dull o reoli defnynnau ac aerosolau wrth eu tarddiad:

Ym mis Gorffennaf 2020, lluniodd NERVTAG bapur yn nodi cyfraniad trosglwyddo aerosolau at ledaeniad COVID-10. Roedd yn nodi mai pan fydd pobl yn agos at ei gilydd (o fewn 2m) y bydd y risg o drosglwyddo aerosolau ar ei huchaf, er ei bod yn bosibl y gall aerosolau sy'n cludo’r feirws aros yn yr aer am gyfnod mewn mannau sydd wedi'u hawyru'n wael. Hefyd, ceir tystiolaeth bod gweithgareddau fel siarad yn uchel neu ganu wedi bod yn gysylltiedig â risg uwch o drosglwyddo. Mae'r papur yn cydnabod bod **dulliau awyru da yn fesur sylfaenol ar gyfer rheoli'r risg o drosglwyddo'r clefyd drwy'r awyr**. **Mae man sydd wedi'i awyru'n dda yn lleihau crynodiad y llwyth feirysol yn yr aer ac felly'n lleihau'r tebygolrwydd o haint.** Ochr yn ochr â hyn, fel dull o reoli wrth y tarddiad, nodwyd bod **y rhan fwyaf o fathau o orchuddion wyneb yn debygol o leihau lledaeniad defnynnau anadlol ac aerosolau bach sy'n cludo'r feirws i mewn i'r aer gan berson sydd wedi'i heintio; a'u bod yn cynnig rhywfaint o amddiffyniad i'r sawl sy'n eu gwisgo rhag dod i gysylltiad â defnynnau (llai o amddiffyniad rhag aerosolau bach).** Mae'r Ganolfan Rheoli Clefydau wedi llunio canllawiau sy'n atgyfnerthu dull amlhaen o leihau'r risg o ddod i gysylltiad â SARS-CoV-2, sef y feirws sy'n achosi COVID-19. Mae'n esbonio ffyrdd o awyru mannau'n well fel rhan o'r dull hwn, er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu a lleihau'r risg o ddod i gysylltiad ag ef. Yn ogystal â gwelliannau i ddulliau awyru, mae dull amlhaen yn cynnwys cadw pellter corfforol, gwisgo gorchuddion wyneb, hylendid dwylo a brechu.

O ran y risg o halogi gorchuddion wyneb, daeth trafodaethau yn SAGE 57 ym mis Medi 2020 i'r casgliad bod y lleihad yn y risg o drosglwyddo'r feirws o ganlyniad i leihau allyriadau defnynnau ac aerosolau drwy wisgo gorchudd wyneb yn sylweddol drech nag unrhyw bosibilrwydd o risg uwch o drosglwyddo'r feirws drwy ddod i gysylltiad anfwriadol â gorchudd wyneb sydd wedi'i halogi a bod hyn yn debygol o fod yn wir ni

waeth am ba hyd y caiff y gorchudd wyneb ei wisgo (hyder canolig). Fodd bynnag, gellir lliniaru'r risgiau hyn drwy roi mesurau syml ar waith megis mwy o olchi dwylo a defnyddio hylif diheintio dwylo, glanhau arwynebau a gwaredu gorchuddion wyneb yn briodol (hyder uchel). Gallai gorchuddion wyneb fynd yn llai effeithiol wrth iddynt gael eu defnyddio am fwy o amser; fodd bynnag, byddai hyn yn dal i gynnig mwy o amddiffyniad i bobl eraill na phe na bai person sydd wedi'i heintio yn defnyddio gorchudd wyneb o gwbl.

**Cyngor Sefydliad Iechyd y Byd ac UNICEF:**

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cynghori y **dylai pobl bob amser gyfeirio at yr arferion a argymhellir gan yr awdurdodau lleol yn eu hardal** a chydymffurfio â nhw, a galwodd grŵp arbenigol rhyngddisgyblaethol ynghyd i edrych dros y dystiolaeth ar COVID-19, ei drosglwyddiad ymhlith plant a'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar y defnydd o orchuddion wyneb gan blant. **Yn seiliedig ar hyn, a ffactorau eraill megis anghenion seicogymdeithasol a cherrig milltir datblygiad plant, mae Sefydliad Iechyd y Byd ac UNICEF yn rhoi'r cyngor canlynol:** Ni ddylai fod yn ofynnol i blant **5 oed ac iau** wisgo masgiau. Mae hyn yn seiliedig ar ddiogelwch a budd cyffredinol y plentyn a'r gallu i ddefnyddio masg yn briodol heb fawr ddim cymorth. Mae Sefydliad Iechyd y Byd ac UNICEF yn cynghori ar y cyd y **dylai plant 12 oed a throsodd wisgo masg dan yr un amodau ag oedolion, yn enwedig pan na allant sicrhau eu bod yn cadw pellter o fetr o leiaf i ffwrdd oddi wrth eraill a bod trosglwyddiad eang yn yr ardal.**

**Papurau tystiolaeth blaenorol y Gell Cyngor Technegol:**

Cafodd gorchuddion wyneb eu cyflwyno mewn ysgolion yng Nghymru ym mis Tachwedd 2020 yn dilyn y cyfnod atal byr ar ddiwedd mis Hydref. Canfu adolygiad o'r dystiolaeth ar y cyfnod atal byr a'i effaith ar blant a phobl ifanc fod **mesurau rheoli mewn ysgolion, sydd wedi'u cyd-gynhyrchu a'u cynllunio i hyrwyddo ymlyniad, yn hanfodol er mwyn rheoli heintiau a chyfyngu ar gyfraddau trosglwyddo mewn darpariaeth cyn-ysgol, ysgolion ac addysg bellach o dan 18 oed.** Roedd y defnydd o orchuddion wyneb, a gyflwynwyd drwy ganllawiau gweithredol, wedi'i gyfyngu i staff a dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a cholegau, ym mhob ardal y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ym mis Chwefror eleni, estynnwyd hyn i gynnwys eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth lle na ellir cadw pellter cymdeithasol; ac i gynnwys staff mewn ysgolion cynradd. Nid ydynt yn orfodol ond fe'u hargymhellir os na ellir cadw pellter cymdeithasol a dylent gael eu gwisgo yn unrhyw ran o ystad yr ysgol, gan gynnwys yn yr ystafell ddosbarth gan staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a dysgwyr mewn ysgolion uwchradd. Ceir eithriad yn ystod prydau bwyd ac yn yr awyr agored, oni bai bod asesiad risg yr ysgol yn nodi bod angen mesurau ychwanegol, e.e. ar iard yr ysgol lle y bydd llawer o ddysgwr mewn man cymharol fach heb wahanu grwpiau cyswllt (megis pan fyddant yn aros i fynd i mewn i'r ysgol). Nid argymhellir gwisgo a thynnu gorchuddion wyneb yn aml oherwydd gall hyn beri risg o halogi'r dwylo a'r wyneb; os bydd dysgwyr yn yr awyr agored am gyfnod byr, gall fod yn haws parhau i wisgo eu gorchuddion wyneb. Ni ddylai dysgwyr wisgo gorchuddion wyneb wrth redeg o gwmpas neu chwarae pêl-droed neu gemau egnïol eraill. Yn fwyaf diweddar, ym mis Mai eleni, ailadroddodd y Prif Swyddog Meddygol gyngor yn

atgyfnerthu'r defnydd o orchuddion wyneb yn seiliedig ar sail asesiad risg. Byddai'n ymddangos bod defnyddio gorchuddion wyneb yn rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl i'r sawl sy'n eu gwisgo gan fod Adroddiad Arolwg (yougov.com) diweddar wedi canfod y byddai tua 60% o'r ymatebwyr yn parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar ôl i'r cyfyngiadau terfynol gael eu codi. Fodd bynnag, yn hanfodol ddigon i gyd-destun y papur hwn, nid yw'n ymddangos bod y sampl hon yn cynnwys plant na phobl ifanc.

Mae cyngor blaenorol ar ddefnyddio gorchuddion wyneb gan y Grŵp Cyngor Technegol wedi nodi y dylai'r polisi ar ddefnyddio gorchuddion wyneb hefyd gyfleu'n glir yr angen i gydymffurfio â'r **cyngor sydd eisoes yn bodoli ar ymddygiadau amddiffynnol, h.y. hylendid dwylo, cadw pellter cymdeithasol a chael prawf/hunanynysu os bydd symptomau, er mwyn atal y feirws rhag lledaenu.** Roedd y cyngor yn esbonio bod risgiau cynhenid yn gysylltiedig â gorchuddion wyneb oherwydd y posibilrwydd na chânt eu gwisgo'n gywir; y posibilrwydd o groes-halogi (gan bwysleisio pwysigrwydd angenrheidiol hylendid dwylo ac osgoi cyffwrdd â'r wyneb); y posibilrwydd y caiff gwastraff halogedig ei waredu mewn ffordd anniogel neu aneffeithiol gan arwain at halogi pellach. Roedd hefyd yn cadarnhau y dylai gwisgo gorchuddion wyneb fod yn ychwanegol at fesurau eraill, megis dulliau awyru da, cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo; fel un rhan o gyfres o ymyriadau i atal trosglwyddiad y feirws.

At hynny, mae defnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach a gofal plant yn golygu taro cydbwysedd rhwng y manteision posibl sy'n gysylltiedig â lleihau niwed yn sgil lledaenu defnynnau ac aerosolau sy'n cludo'r feirws, a'r risg o niwed i blant, pobl ifanc a staff a allai fod yn gysylltiedig â gwisgo gorchudd wyneb. Ymhlith yr enghreifftiau mae anesmwythder i'r sawl sy'n ei wisgo; trin a thrafod y gorchudd yn amhriodol a lledaeniad ffomidau; tarfu ac anawsterau clywed a chyfathrebu; effaith gymdeithasol negyddol amhariad ar y gallu i ymateb i fynegiant wyneb. Daeth grŵp ffocws a gynhaliwyd yn ddiweddar gan elusen Plant yng Nghymru, gyda'r nod o gasglu adborth gan bobl ifanc ar orchuddion wyneb, i'r casgliad canlynol ynglŷn â defnyddio gorchuddion wyneb: ***"…highlighted that disabled children and young people were being targeted for not wearing face coverings and that often hidden disabilities were highlighted even more so. (Participants also stated that) They felt that teachers were not consistent with the rules and this did not provide a good example to students and there had been significant impacts on their learning, particularity in regards to communication, grades and assessments (as a result of the use of face coverings). (In summary) Young people feel that the policy on wearing face coverings in school should end soon, however overall, they expressed that they trusted the experts advising Welsh Government and that they were best placed to make this decision when it is most safe to do so to protect children, young people and teaching staff from COVID-19."***

**Meysydd o ansicrwydd ar hyn o bryd:**

Astudiaethau arsylwadol ac ecolegol sydd wedi cael eu cynnal ar orchuddion wyneb yn bennaf, heb fod yn ddigon manwl na phenodol i fynd i'r afael â'r ffaith bod cyfraddau'r feirws yn is ymhlith plant. Hefyd, ystyrir bod plant yn llai tebygol o drosglwyddo feirysau yn ystod cyfnodau mewn amgylcheddau ysgol rheoledig. O

ganlyniad, mae prinder tystiolaeth uniongyrchol o werth gorchuddion wyneb yn yr holl gyd-destunau sy'n benodol i blant a phobl ifanc.

Mewn sefyllfa lle mae cyfraddau cefndirol y feirws yn isel, nid yw'n debygol y bydd ymyriadau anfferyllol ymhellach i lawr yr hierarchaeth o ymyriadau rheoli yn cyfrannu llawer at ddiogelwch cyffredinol os cânt eu defnyddio yn ychwanegol at ddulliau awyru a chadw pellter. Felly, mae'n bosibl y bydd dull sy'n hyrwyddo asesiadau risg effeithiol a tharo cydbwysedd rhwng niweidiau posibl a manteision pob ymyriad yn fwy priodol. Lle bo cyfraddau lledaenu'r feirws yn codi neu'n ansicr (yn enwedig yng ngoleuni amrywiolynnau newydd a datblygol) mae'n bosibl y bydd dull rhagofalus sy'n ystyried y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â defnyddio unrhyw amrywiaeth neu gyfuniad o ymyriadau anfferyllol yn fwy priodol.

**Egwyddorion Asesiadau Risg:**

Rhaid i asesiadau risg ystyried y lleoliad a'r cyd-destun; y gymuned yr effeithir arni, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldebau; cyfraddau trosglwyddo cefndirol cyfredol y feirws gan gynnwys trosglwyddadwyedd amrywiolynnau; y dull 'hierarchaeth o ymyriadau rheoli' mewn perthynas â rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn y tymor byr a'r tymor hwy; cyfathrebu'n effeithiol er mwyn dylanwadu ar ymddygiad ac ymlyniad wrth gyngor gwyddonol.

Mae Cymru ar lefel 2 mesurau rheoli'r coronafeirws ar hyn o bryd. Mae cyfraddau cefndirol y feirws yn isel, ond ceir ansicrwydd ynghylch y risg sy'n gysylltiedig â dyfodiad amrywiolyn VOC21APR-02 (B.1.617.2, a ganfuwyd gyntaf yn India) o ranbarthau yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon i mewn i Gymru. Mae ansicrwydd ynghylch lefel y risg yn arwain at ystyried ai doeth fyddai dilyn egwyddor ragofalus, yn seiliedig ar barhau i fonitro'r cyfraddau cefndirol ac unrhyw dystiolaeth o ledaeniad heb reolaeth yn y gymuned yng Nghymru.

Dylai lleoliadau gofal plant, ysgolion a cholegau barhau i ddilyn dull seiliedig ar risg, gan ddefnyddio'r agweddau mwyaf effeithiol ar yr hierarchaeth o ymyriadau rheoli (Ffigur 1 isod ac Atodiad A), a phwyso a mesur y risgiau a'r manteision cyffredinol i blant, pobl ifanc a gweithwyr. Dylai asesiadau risg gael eu cwblhau gan y bobl hynny sy'n gyfrifol am reoli'r risg o fewn sefydliad gan ystyried y meysydd allweddol canlynol mewn ffordd strwythuredig a systematig:

- Y risg o ddod i gysylltiad â SARS-CoV-2 ar arwynebau (trosglwyddiad drwy gyffwrdd);
- Y risg o ddod i gysylltiad â SARS-CoV-2 gan bobl (trosglwyddiad pellter byr drwy ddefnynnau);
- Y risg o ddod i gysylltiad â SARS-CoV-2 o'r aer (trosglwyddiad drwy aerosol).

Ar ôl pwyso a mesur y manteision a'r niweidiau hyn, rhaid monitro ac addasu'r defnydd o orchuddion wyneb yng nghyd-destun newidiadau i'r cyffredinrwydd yn y gymuned ac achosion mewn ysgolion. Lle y ceir cyffredinrwydd cefndirol isel, mae'n bosibl iawn y bydd y niweidiau sy'n gysylltiedig â defnyddio gorchuddion wyneb yn drech na'r manteision cyffredinol. Drwy ei phroses Rhyddid Gwybodaeth, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi ei dull gweithredu mewn perthynas ag asesu risg a defnyddio gorchuddion wyneb, a allai fod yn fframwaith defnyddiol ar gyfer symud ymlaen.

**Defnyddio'r hierarchaeth o ymyriadau rheoli risg i gynnal diogelwch:**

Dylai defnyddio gorchuddion wyneb fel ymyriad anfferyllol i atal feirws COVID-19 rhag lledaenu fod yn rhan o gyfres ehangach o fesurau ataliol ynghyd â sawl adolygiad o'u heffeithiolrwydd fel ffordd o atal y feirws[1]. O ran egwyddorion, gall mesurau leihau trosglwyddiad COVID-19 mewn tair ffordd (o'r mwyaf i'r lleiaf effeithiol:

a. Lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl sy'n heintus yn cymysgu â phobl eraill.

b. Ar gyfer y bobl hynny a allai fod yn heintus nad ydynt wedi'u hynysu, lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn mynd i leoliadau neu sefyllfaoedd â risg uwch.

c. Lleihau'r risg y caiff y feirws ei drosglwyddo gan berson a allai fod yn heintus mewn unrhyw amgylchedd penodol.

Yn dilyn yr hierarchaeth hon o ymyriadau rheoli risg (Ffigur 1 isod, ac Atodiad A), ceir ymyriadau amgylcheddol sy'n debygol o gael mwy o effaith o ran atal y feirws rhag lledaenu. Mae mesurau rheoli gweinyddol megis amseroedd dechrau a gorffen gwahanol i ddysgwyr gwahanol, systemau unffordd, mesurau rheoli amgylcheddol megis mwy o awyru drwy agor ffenestri (lle bo modd) a gweithio yn yr awyr agored (lle y bo'n briodol) yn cynnig ffyrdd o leihau cysylltiadau a gwasgaru aerosolau a all gynnwys y feirws. Mewn llawer o leoliadau, bydd ymddygiad y defnyddwyr yn dylanwadu'n gryf ar effeithiolrwydd dulliau awyru; o ganlyniad i hynny, bydd angen negeseuon clir ynghylch y rhesymau dros yr ymyriadau a'r ffyrdd gorau o'u rhoi ar waith. Dylid hefyd ystyried mesurau eraill megis pwysleisio pwysigrwydd hunanynysu os bydd gan unigolyn symptomau neu os caiff ganlyniad positif (dileu), yn ogystal â defnyddio gorchuddion wyneb (cyfarpar diogelu personol).

**Cyd-destun Sefyllfa'r Risg yng Nghymru**

Ers dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb, rydym wedi rhoi rhaglenni profi asymptomatig torfol ar waith mewn ysgolion a cholegau er mwyn gwella'r broses o reoli'r haint a chynnal hyder myfyrwyr, rhieni a staff; gan gydnabod y gall pobl fod heb symptomau am gyfnod pan allent fod yn cymysgu â'r boblogaeth ehangach.

Mae cynnal profion yn rheolaidd ac fel mater o drefn yn ffactor allweddol er mwyn atal y feirws rhag lledaenu, canfod achosion yn gynnar a hunanynysu'n briodol, fel ffordd o atal y feirws rhag lledaenu drwy'r gymuned neu i mewn i'r lleoliad addysg. Yn gysylltiedig â hyn mae rheolau ar gymysgu cymdeithasol a lleihau nifer y cysylltiadau wyneb yn wyneb dyddiol, yn enwedig y tu allan i'r amgylchedd addysg rheoledig, er mwyn lleihau'r risg o haint. Mae hyn yn cynnwys pan fyddant ar deithiau i ysgolion ac yn ôl, ac yn ystod gweithgarwch neu gynulliadau allgyrsiol mewn sefyllfaoedd addysgol ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r crynodeb wythnosol o'r broses olrhain cysylltiadau yng Nghymru yn cynnwys gwybodaeth reoli a gesglir fel rhan o'r broses olrhain

[1] https://www.cdc.gov/mmwr/volumes/70/wr/mm7021e1.htm
https://science.sciencemag.org/content/early/2021/05/19/science.abg6296
https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2666142X20300126
https://www.bmj.com/content/369/bmj.m1435/rr-40


cysylltiadau sy'n gysylltiedig â digwyddedd; ac mae'n adnodd allweddol yn y gwaith o olrhain lledaeniad y feirws.

Un ymyriad tymor hwy sydd ar waith yw brechu torfol ymhlith oedolion, sy'n cynnwys pobl ifanc 18 oed a throsodd ar hyn o bryd, heblaw rhai pobl ifanc 16+ oed sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu sydd â chyflyrau iechyd isorweddol. Nod y rhaglen frechu, yn amodol ar gyflenwad, yw cynnig dos cyntaf o'r brechlyn i bawb yn y 10 grŵp blaenoriaeth presennol erbyn diwedd mis Gorffennaf; ac mae'r gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar gyfer Cam 3 y rhaglen frechu – o fis Awst ymlaen. Ar y cam hwn, bydd pobl sydd eisoes wedi cael dau ddos o'r brechlyn yn cael dos atgyfnerthu wrth i'r brechlyn wanhau. Nid yw'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) wedi awdurdodi rhoi unrhyw frechlynnau COVID-19 i blant o dan 16 oed eto. Rydym ni, ynghyd â gwledydd eraill y DU, yn cael ein harwain gan gyfundrefn drwyddedu MHRA a chyngor arbenigol y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI). Rydym yn parhau i ddilyn cyngor cyfredol JCVI, sef brechu pob oedolyn yn nhrefn y risg a wynebir yn sgil COVID-19. Yn absenoldeb cymeradwyaeth reoleiddiol neu gyngor gan JCVI, ni allwn estyn y rhaglen frechu i gynnwys plant o dan 16 oed fel mater o drefn. Fodd bynnag, mae JCVI yn ystyried y dystiolaeth glinigol er mwyn penderfynu a ddylid brechu pob plentyn neu a fyddai'n well cynnig brechiadau i grwpiau penodol o blant, yn seiliedig ar eu hoedran neu ffactorau risg clinigol. Rydym yn disgwyl i JCVI roi'r cyngor hwn tua diwedd mis Gorffennaf. Rydym wrthi'n ystyried sut y gall GIG Cymru roi unrhyw argymhelliad gan JCVI ar waith yn brydlon er mwyn brechu plant o dan 16 oed. Hefyd, ceir rhai sylwadau ar yr angen i frechu'r carfannau iau er mwyn osgoi sefyllfa lle mai ‘clefyd pobl ifanc’ yw COVID-19 a lle y bydd pobl ifanc dan fwy o anfantais, yn y bôn, am mai nhw yw'r rhan o gymdeithas sy'n wynebu risg o hyd. [2]

Fel y cyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru am 22:00 ar 25 Mai 2021, roedd 2,112,647 o ddosau cyntaf ac 1,037,749 o ail ddosau o frechlyn COVID-19 wedi cael eu rhoi yng Nghymru ac wedi'u cofnodi ar System Imiwneiddio Cymru ar gyfer COVID-19. Er gwaethaf y risg sy'n gysylltiedig ag amrywiolynnau sy'n peri pryder a ddaw i'r amlwg nawr ac yn y dyfodol a'r posibilrwydd y bydd amrywiolynnau'n dianc rhag effaith brechlyn, mae PHE wedi cyhoeddi astudiaeth yn ddiweddar sy'n nodi bod dau ddos o frechlyn COVID-19 yn **effeithiol** o ran atal clefyd difrifol yn sgil amrywiolyn B.1.617.2 a ganfuwyd gyntaf yn India; sy'n awgrymu o bosibl bod cyfle i wella cydnerthedd y boblogaeth a symud oddi wrth ymateb pandemig tuag at ymateb endemig yn ein gwaith cynllunio a'n mesurau lliniaru.

**Ffigur 1:** Hierarchaeth o ymyriadau rheoli, Ffynhonnell: SAGE: Principles for Managing SARS-CoV-2 Transmission Associated with Further Education, Medi 2020

[2] https://www.theatlantic.com/health/archive/2021/04/young-kids-vaccines-covid/618650/




**Ffynonellau tystiolaeth yn ymwneud â'r risg o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned**


Mae'r crynodeb wythnosol o gyngor y Gell Cyngor Technegol yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran nifer achosion gan gynnwys amcangyfrifon Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) o'r rhif atgynhyrchu; yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y cynllun Profi, Olrhain, Diogelu a statws amrywiolynnau sy'n peri pryder. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn nodi, er bod y ffigurau cyffredinol yn dal yn isel ac yn parhau i leihau ar lefel genedlaethol, fod heterogenedd cynyddol ar lefel ranbarthol o ran newid wythnosol, er o lefel isel mewn niferoedd absoliwt. Er bod nifer yr achosion yng Nghymru yn dal yn isel ar hyn o bryd (28 o achosion wedi'u canfod oedd y sefyllfa ar 19 Mai), mae cyfran yr achosion sy'n perthyn i amrywiolyn VOC21APR-02 (B.1.617.2, a ganfuwyd gyntaf yn India) wedi cynyddu'n sylweddol mewn rhai rhannau o wledydd y DU. Ceir tystiolaeth gref bod yr amrywiolyn hwn yn fwy trosglwyddadwy na B.1.1.7 (hyder uchel) ac mae'n bosibl mai hwn fydd yr amrywiolyn trechaf yng Nghymru, gyda thystiolaeth gynnar (hyder isel) o rywfaint o leihad mewn amddiffyniad gan frechlynnau ac imiwnedd naturiol. Yn flaenorol, mae gwaith modelu ar gyfer dadansoddi mapiau trywydd yn SAGE wedi awgrymu y gallai mantais trosglwyddo o 40-50% o gymharu â'r amrywiolyn trechaf arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty, yn debyg i benllanwau blaenorol, neu'n fwy na hynny. Felly, mae'r amrywiolyn hwn yn peri risg newydd sy'n golygu y bydd angen ystyried yn ofalus a gweithredu'n gynnar er mwyn atal y feirws rhag tyfu heb reolaeth a throsglwyddo'n ehangach yn y gymuned yng Nghymru.

## Cyfeiriadau:


- Cyngor ar y coronafeirws gan y Gell Cyngor Technegol | LLYW.CYMRU
- Lefel rhybudd 2: crynodeb | LLYW.CYMRU
- Coronavirus (COVID-19) symptoms in children - NHS (www.nhs.uk)
- Coronavirus disease (COVID-19): Children and masks (who.int)
- COVID-19 Hierarchy of Controls | Environment, Health and Safety (cornell.edu)
- EMG/NERVTAG: SARS-COV-2: Transmission Routes and Environments
- EMG/SPI-B/SPI-M: Reducing within- and between-household transmission in light of new variant SARS-CoV-2, 14 Ionawr 2021
- EMG: Application of physical distancing and fabric face coverings in mitigating the B117 variant SARS-CoV-2 virus in public, workplace and community - 13 Ionawr 2021
- EMG: Risk Estimation to inform risk assessment - 7 Mai 2020
- Fifty-seventh SAGE meeting on COVID-19 - 17 Medi 2020
- Freedom of Information request- Face coverings for children aged 5 - 11 (www.gov.scot)
- NERVTAG/EMG: Duration of wearing of face coverings - 15 Medi 2020
- NERVTAG/EMG: Role of aerosol transmission in COVID-19 - 22 Gorffennaf 2020
- PLOS ONE, Children's emotion inferences from masked faces: Implications for social interactions during COVID-19, Rhagfyr 2020
- Public Health Wales Covid-19 Surveillance Dashboard - Public | Tableau Public
- SAGE TFC: Principles for managing SARS-CoV-2 transmission associated with higher education - 3 Medi 2020
- SAGE: Children's Task and Finish Group: update to 17 December 2020 paper on children, schools and transmission, 10 Chwefror 2021
- SAGE: NPIs table (pivot) - 21 Medi 2020
- SPI:B Managing infection risk in high contact occupations - 15 Mehefin 2020
- SPI-B: Consensus statement on the reopening of large events and venues (S0703) - 19 Awst 2020
- Survey Report (yougov.com) 7 Mai 2021
- Y Gell Cyngor Technegol: defnyddio gorchuddion wyneb yng nghyd-destun COVID-19, Mehefin 2020
- Y Grŵp Cyngor Technegol: cyngor ar ddychwelyd i'r ysgol, Gorffennaf 2020
- Y Grŵp Cyngor Technegol: gorchuddion wyneb i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg, 26 Awst 2020

- Y Grŵp Cyngor Technegol: y cyngor diweddaraf ar orchuddion wyneb, 14 Awst 2020
- Y Grŵp Cyngor Technegol: amrywiolyn sy'n peri pryder ac addysg yng Nghymru, 7 Ionawr 2021
- Profi, Olrhain, Diogelu (olrhain cysylltiadau ar gyfer coronafeirws (COVID-19)) | LLYW.CYMRU
- Trends Neurosci Educ., Masked education? The benefits and burdens of wearing face masks in schools during the current Corona pandemic, Medi 2020
- Vaccines highly effective against B.1.617.2 variant after 2 doses - GOV.UK (www.gov.uk)
- Variants: distribution of cases data - GOV.UK (www.gov.uk)

**Atodiad A – Hierarchaeth o ymyriadau rheoli er mwyn lleihau'r risg y bydd y Coronafeirws yn lledaenu**




## Hierarchaeth o ymyriadau rheoli risg mewn lleoliadau gofal plant, ysgolion a cholegau: o'r mwyaf i'r lleiaf effeithiol:

1. **DILEU AC ATAL** – y nod yw cael gwared ar y perygl neu ei atal

- Cyfyngu ar weithrediadau ysgolion drwy eu cau
- Cyfyngu ar niferoedd ar y safle drwy ddilyn rota sy'n golygu y bydd pobl wahanol yn bresennol ar ddiwrnodau gwahanol
- Dysgu ar-lein/o bell
- Ni fydd y plentyn neu'r gweithiwr yn mynd i'r lleoliad gofal plant/ysgol os bydd ganddo symptomau COVID-19
- Bydd y plentyn neu'r gweithiwr yn cael prawf yn syth os bydd symptomau COVID-19 yn ymddangos, ac yn hunanynysu nes iddo gael canlyniad y prawf
- Bydd y plentyn neu'r gweithiwr yn cael profion llif unffordd asymptomatig rheolaidd, ac yn cofnodi'r canlyniadau ar-lein
- Ni fydd y plentyn neu'r gweithiwr yn mynd i'r lleoliad gofal plant/ysgol os bydd canlyniad y prawf llif unffordd yn bositif, a bydd yn cael prawf PCR ar yr un diwrnod

- Bydd y plentyn neu'r gweithiwr yn cydweithredu â'r broses Olrhain Cysylltiadau drwy hunanynysu a chael profion yn unol â'r cyngor
- Bydd y plentyn neu'r gweithiwr yn cael dau ddos y brechlyn cyn gynted ag yr argymhellir iddo wneud hynny
- 

2. **AMNEWID/LLEIHAU** – y nod yw cyflwyno gweithgaredd llai peryglus yn lle'r gweithgaredd peryglus

- Hyfforddiant neu ddysgu cyfunol
- Cyfleuster efelychu er mwyn lleihau cysylltiadau allanol (e.e. hyfforddiant trin gwallt, gofal iechyd)
- Bagiau bwyd unigol yn hytrach nag arlwyo cymunol
- Cadw Pellter Cymdeithasol o 2m

3. **YMYRIADAU RHEOLI PEIRIANNEG** – y nod yw cadw pobl draw o'r perygl

- Sgriniau plecsiglas ar fysiau neu dacsis
- Mannau gofal, addysgu neu waith wedi'u haddasu – trefnu'r desgiau a'r cadeiriau
- Llinellau terfyn a rhwystrau
- Cyfyngu ar nifer y cysylltiadau dyddiol drwy garfannau ysgol neu 'swigod' Mwy o lanhau, glanweithdra a diheintio
- Gweithgareddau neu wersi yn yr awyr agored
- Mwy o awyru dan do

4. **YMYRIADAU RHEOLI GWEINYDDOL** – y nod yw newid y ffordd y mae pobl yn gweithio

- Cadw Pellter Cymdeithasol o dan 2m
- Golchi dwylo a diheintio yn rheolaidd
- Llai o rannu arwynebau ffomid gan gynnwys rhannu llyfrau a phapurau
- Cyfyngu ar yr amser a dreulir a/neu'r niferoedd sydd mewn ystafelloedd cyn iddynt gael eu hawyru
- Systemau unffordd er mwyn lleihau cyswllt wyneb yn wyneb Addasu diwrnodau ysgol neu waith, neu eu trefnu am yn ail, er mwyn lleihau cyswllt rhwng carfannau ysgol neu 'swigod'
- Cynllunio'r gweithlu a thimau er mwyn cynnal y gallu i weithredu
- Hyfforddiant ac arwyddion er mwyn annog cydymffurfiaeth Cyfathrebu'n effeithiol a chael adborth ar welliannau er diogelwch y gymuned
- Cael gwared ar gyfyngiadau diangen pan fo'n ddiogel gwneud hynny, er mwyn annog cydymffurfiaeth â'r rhai angenrheidiol

5. **CYFARPAR DIOGELU PERSONOL** – y nod yw diogelu'r gweithiwr rhag dod i gysylltiad â gweddillion y feirws wrth ddefnyddio cyfarpar diogelu personol

- Anadlyddion FFP3
- Masgiau wyneb llawfeddygol gwrth-hylif
- Cyfarpar diogelu'r llygaid
- Menig a ffedogau
- Gorchuddion wyneb ffabrig tair haen